**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 8 Tachwedd 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams | L James |
| J W Jones | M W Locke | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. David Hopkins | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad |
| Y Cyng. Andrea Lewis | Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau |
| Y Cyng. Elliot King | Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid a'r Swyddog Adran 151 |
| Richard Rowlands | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Karen Gibbins | Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgelloedd |
| Karen Davies | Prif Lyfrgellydd |
| Carol Morgan | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Dave Meyrick | Rheolwr Rhaglen Cynllunio a Chyflwyno |
| Dave Bratley | Rheolwr Asedau Tai |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): B J Rowlands

---

## 16 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

## 17 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

## 18 Cofnodion

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 19 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 20 Adolygu'r refeniw wrth gefn

Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Swyddog Adran 151, Ben Smith, yn bresennol i roi trosolwg o'r refeniw wrth gefn. Trafododd y problemau canlynol:

- Mae'r cyngor wedi ychwanegu 100m i'r cronfeydd wrth gefn dros y 3 blynedd diwethaf, sy'n rhoi cyfanswm o £157m ar gyfer cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- Mae'r dyfarniad cyflog heb ei ariannu o hyd ac mae'n debygol y bydd yn tynnu swm sylweddol o'r cronfeydd wrth gefn.
- Mae pob swyddogaeth a gwasanaeth dan bwysau a byddant yn tynnu arian o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn bresennol, amcangyfrifir bod tua 20/25% o'r cronfeydd wrth gefn wedi cael eu defnyddio yn y flwyddyn bresennol.
- Mae'r Arweinydd wedi cyhoeddi yn ystod cyfarfod y cyngor y bydd y Gronfa Adferiad Economaidd yn cael ei oedi ar ôl cyflawni'r ymrwymiadau a wnaed eisoes er mwyn diogelu sefyllfa'r gyllideb ychydig.
- Mae'n bosib y bydd angen ariannu penderfyniadau cyfalaf ychwanegol y mae angen benthyca arian ar eu cyfer yn y dyfodol drwy gyfraniadau refeniw yn hytrach na'r Gronfa Cyfartalu Cyfalaf.
- Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr yn golygu y gellir osgoi benthyca cyhyd ag sy'n bosib nes y cyrhaeddir sefyllfa fwy sefydlog a fforddiadwy ar gyfer benthyca allanol.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cynghori bod angen i'r cyngor presennol barhau i baratoi am newid sylweddol mewn darparu gwasanaethau a fydd yn sicr yn effeithio ar lefelau cyflogi uniongyrchol wrth symud ymlaen.

## 21 Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2021/2022

Cyflwynodd y Cyng. David Hopkins, Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad a Richard Rowlands, Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yr adroddiad. Nodwyd y materion canlynol:

- Mae'r adroddiad hwn yn ofyniad yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.
- Mae'r adolygiad yn asesu'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni camau'r cynllun corfforaethol, gan asesu'r defnydd o adnoddau ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r cyngor.
- Mae'r adolygiad yn nodi meysydd i'w gwella. Caiff y cynlluniau corfforaethol eu mesur dros gyfnod o bum mlynedd ac mae mesurau eraill yn parhau.

- Cyfeirir at yr ymchwiliad craffu caffael yn yr adroddiad ond lluniwyd yr adroddiad terfynol i'r Cabinet ar ôl amserlen yr adroddiad hwn.

## 22 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru - Adroddiad Perfformiad Blynyddol

Rhoddodd y Cyng. Elliott King, Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Diwylliant a Karen Gibbins, Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgelloedd drosolwg o'r adroddiad. Roedd Karen Davies, y Prif Lyfrgellydd, hefyd yn bresennol. Trafodwyd y problemau canlynol:

- Mae cyfnod adrodd 2020/2021 yn cynnwys cyfnod y pandemig, pan roedd llyfrgelloedd ar gau dros dro. Er hyn, bodlonwyd y 12 hawliad o fewn yr adeg hon.
- Gwelwyd cynnydd mawr yn y defnydd o e-lyfrau o ganlyniad i fuddsoddiad o £500,000 mewn e-lyfrau.
- Gwelwyd lleihad yn nifer y bobl sy'n benthyca llyfrau, ac eir i'r afael â hyn.
- Mae Abertawe yn y chwartel gwaelod o ran llyfrgelloedd o hyd ar gyfer staff cymwys.
- Defnyddir cynlluniau prentisiaeth a chyllid allanol lle bo hynny'n bosib i gefnogi datblygiad staff.
- Roedd darparu mynediad at fand eang a Wi-Fi am ddim mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn angenrheidiol yn ystod y pandemig.

## 23 Diweddariad Blynyddol Safonau Ansawdd Tai Cymru

Roddodd y Cyng. Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Dave Meyrick, Rheolwr Cynllunio a Chyflwyno Rhaglenni yr wybodaeth ddiweddaraf, ac roedd Carol Morgan, Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd a Dave Bratley, Rheolwr Asedau Tai hefyd yn bresennol. Nodwyd y materion canlynol:

- Cyflwynwyd SATC gan Lywodraeth Cymru yn 2002 i wella tai cymdeithasol yng Nghymru.
- Mae'r safon yn gofyn am nifer o elfennau i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Mae 70% o'n cartrefi bellach yn cydymffurfio'n llawn, sydd 13% yn uwch na'r llynedd.
- O'r 30% o fethiannau derbyniol, roedd 15% ohonynt oherwydd bod preswylwyr wedi gwrthod y cyfle i gael cegin neu ystafell ymolchi cyngor ac roedd y 15% arall oherwydd cynllun y rhaglen. Mae methiannau derbyniol yn rhan gydnabyddedig o gydymffurfiaeth SATC.
- Gwariodd y cyngor £546m ar ei eiddo eleni. Codwyd £381m o hynny drwy gyfraniadau refeniw rhenti a daeth £165m o Grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru. Ni ddaeth unrhyw swm o'r arian hwn o refeniw treth y cyngor.
- Mae SATC wedi cael effaith economaidd yn yr ardal, gan gynnwys cyfleoedd swyddi a'r economi adeiladu.
- Dywedodd 72% o'r preswylwyr bod cyflawniad y gwaith naill ai'n dda neu'n ardderchog.

- Rhoddodd 75% o breswylwyr farn gadarnhaol am yr awdurdod lleol ar arolwg STAR Llywodraeth Cymru.
- Bydd SATC yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol ac mae rhaglenni ar waith i fodloni'r safonau presennol.
- Cyflwynir safon SATC newydd ar 1 Ebrill a bydd yn cyflwyno mesurau newydd, gan gynnwys datgarboneiddio.
- Gall y gost o fodloni'r safonau newydd fod oddeutu £875m. Clustnodwyd £423m ar hyn o bryd i fodloni'r safon bresennol ond mae hyn y llai na'r swm y bydd ei angen ar gyfer y safonau newydd.
- Derbynnir gwybodaeth bellach am y safonau newydd yn fuan oddi wrth Lywodraeth Cymru.

## 24 Llythyrau

Ni wnaed unrhyw sylwadau yn y llythyrau atodedig i Aelodau'r Cabinet.

## 25 Cynllun Gwaith 2022/23

Ni wnaed sylwadau ar y Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.43am.

**Cadeirydd**